Cardiff University / Prifysgol Caerdydd — University Library Service / Gwasanaeth Llyfrgell y Brifysgol

GIG Cymru NHS Wales — Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre / Velindre University NHS Trust

# LLYFRGELL YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE

## PECYN YMSEFYDLU




Prifysgol Caerdydd
Canolfan Ganser Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2TL
Ffôn: 029 20316291
Ebost: Library.Velindre@wales.nhs.uk


Dilynwch ni ar Twitter: @VCCLibrary

# Croeso

## Helo a chroeso i Wasanaethau Llyfrgell Prifysgol Felindre.

Fel arfer, byddech yn cael sesiwn ymgyfarwyddo yn y llyfrgell ei hun ond nid yw hynny'n bosibl ar hyn o bryd. Mae'r llyfrgell sydd gennym yn y Ganolfan Ganser yn un eithaf bach, ac ni allwn fod ar y safle bob dydd ar hyn o bryd oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda Felindre i asesu'r gofod a chytuno ar sut rydym am gael y gwasanaeth i weithredu'n debyg i'r arfer unwaith eto. Yn y cyfamser, mae'r gofod ar gael o hyd i unigolion 24 awr y dydd.

Os oes angen côd arnoch ar gyfer drws blaen adeilad CRW, cysylltwch â ni.

Nid yw ein gwasanaethau llyfrau ffisegol ar waith yn llawn ar hyn o bryd gan nad yw nifer o lyfrgelloedd o gwmpas y DU yn delio â'u stociau ffisegol, ond gallwn geisio cael pethau i chi. Gallwch ddefnyddio ein silffoedd o hyd a gallwch lenwi slip hunan-wasanaeth i gymryd llyfrau.

Os byddwch yn cymryd llyfr o'r silff, rhowch ef yn y bin dychwelyd llyfrau fel bod modd ei roi mewn cwarantîn cyn ei ddychwelyd.

**Yn bwysig - mae'r holl wasanaethau eraill y byddwch yn eu cael fel arfer ar gael!**

Gallwn eich helpu i gael gafael ar ddeunydd a gallwn ebostio copïau o bapurau atoch a gallwn chwilio am lenyddiaeth i chi o hyd. Mae sesiynau hyfforddi ar gael dros Skype, Teams neu Zoom. Un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau bod gan staff yr Ymddiriedolaeth y sylfaen orau o dystiolaeth i ddelio â COVID. Felly, rydym wedi llunio tudalen newydd ar wefan y llyfrgell i gasglu unrhyw erthyglau perthnasol a all weithredu fel canllawiau neu dystiolaeth. Mae'r dudalen ar gael yma:

https://felindre.gig.cymru/llyfrgell-a-gwasanaeth-gwybodaeth-felindre/adnoddau-covid-19-llyfrgell/

Rydym yn chwilio drwy'r llenyddiaeth ac yn diweddaru'r dudalen yn ddyddiol.

Os ydych am gofio un peth am y llyfrgell yn unig, dylech chi gofio hyn;

**Rydym yma i'ch cefnogi o hyd - os oes angen unrhyw beth arnoch, cysylltwch â ni!!!!**

**Library.velindre@wales.nhs.uk**



Anne Cleves
Llyfrgellydd

Hannah Davies
Rheolwr Cynorthwyol Llyfrgell



# Gwybodaeth Gyffredinol

Llyfrgell Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw'r unig lyfrgell oncoleg arbenigol yng Nghymru a chaiff ei ariannu gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Arian Elusennol Felindre.

Y llyfrgell yw'r unig ddarparwr gwasanaeth llyfrgell ar gyfer Canolfan Ganser Felindre yn ogystal â gwasanaethu adrannau eraill o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Rôl y llyfrgell yw cefnogi pob aelod staff yn ystod eu gwaith a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gall unrhyw Weithiwr Iechyd Proffesiynol yng Nghymru ddefnyddio'r llyfrgell ar sail cyfeiriad.

**Ar agor: 8:30am - 4:30pm, dydd Llun i ddydd Gwener**
**Mae Mynediad 24 Awr ar gael i ddefnyddwyr awdurdodedig**

**Ddim yn aelod? Ymunwch heddiw!**



## GWASANAETHAU

- Cael gafael ar lyfrau ac erthyglau mewn cyfnodolion.
- Hyfforddiant ar adnoddau electronig, cronfeydd data, chwilio am lenyddiaeth.
- Cyngor i unigolion am unrhyw ymchwil y maent yn ei gwneud.
- Gwasanaeth chwilio llenyddiaeth am wybodaeth i gefnogi gofal cleifion, gwella'r gwasanaeth, archwiliadau ac ati.
- Gwaith gwybodaeth uwch ar gyfer adolygiadau systematig.

## HYFFORDDIANT

Mae'r llyfrgell yn rhoi hyfforddiant a chyngor ar sail unigolyn neu grŵp bach i unrhyw aelod o'r llyfrgell yn y meysydd canlynol:

Adnoddau Electronig
- Beth sydd ar gael?
- Sut i gael gafael arnynt

Cronfeydd data
- Beth yw'r rhain?
- Pa rai sydd ar gael?
- Sut i chwilio amdanynt yn effeithiol

Chwilio Llenyddiaeth
- Diffinio'ch cwestiwn
- Termau chwilio
- Llunio'ch strategaeth chwilio

Arfarniad Beirniadol
- Beth yw hyn?
- Sut i'w wneud yn effeithiol
- Rhestrau gwirio ar gael

# Cyfrif Llyfrgell

Gan eich bod yn aelod o Lyfrgell Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre rydych hefyd yn aelod o Wasanaeth Llyfrgell Prifysgol Caerdydd a gallwch ddefnyddio eu gwasanaethau llyfrgell ffisegol.

I ymuno â'r llyfrgell, llenwch a dychwelwch y ffurflen aelodaeth llyfrgell sydd hefyd ar gael yma: https://felindre.gig.cymru/llyfrgell-a-gwasanaeth-gwybodaeth-felindre/ynglyn-ar-llyfrgell/


Unwaith rydych yn aelod o'r llyfrgell gallwch gael mynediad i'ch cyfrif llyfrgell drwy fynd i:
https://nhswaleslibrarysearch.cardiff.ac.uk

Dewiswch Aelodau'r GIG a mewngofnodwch gyda'ch cod bar a'ch cyfrinair.


Y cyfrinair diofyn yw: Health2016

Ar ôl mewngofnodi'n llwyddiannus gallwch newid eich cyfrinair:

- Cliciwch ar eich enw yn y gornel dde uchaf
- Cliciwch ar fy nghyfrif llyfrgell




- Cliciwch ar y tab manylion personol.
- Cliciwch ar ddiweddaru manylion mewngofnodi a newidiwch eich cyfrinair.




Mae LibrarySearch hefyd yn eich galluogi i chwilio am ddeunydd sy'n cael ei gadw yn y llyfrgell ond hefyd deunydd sy'n cael ei gadw ym mhob un o Lyfrgelloedd GIG Cymru a Llyfrgelloedd Prifysgol Caerdydd. Gallwn fenthyg y deunydd ar eich rhan! Gallwn hefyd gael deunydd o'r Llyfrgell Brydeinig a llyfrgelloedd eraill y DU os nad yw rhywbeth yn cael ei gadw'n lleol.

# GWASANAETHAU FFISEGOL


**Noder, ar hyn o bryd nid yw rhai o'n gwasanaethau ffisegol ar gael oherwydd Pandemig COVID-19.**

## ARGRAFFU A WIFI

Mae gan y llyfrgell dri chyfrifiadur rhwydwaith Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Gall unrhyw aelod staff sydd â manylion mewngofnodi â GIG Cymru gael gafael ar y rhain. Gellir argraffu mewn lliw neu yn ddu a gwyn. **Sylwch nad yw systemau cofnodion cleifion ar y peiriannau hyn gan eu bod yn beiriannau cyhoeddus.**

Mae gan y llyfrgell dri chyfrifiadur rhwydwaith Prifysgol Caerdydd. Gall unrhyw staff neu fyfyriwr o Brifysgol Caerdydd ddefnyddio'r rhain. Gellir argraffu mewn lliw neu yn ddu a gwyn.

Mae tri rhwydwaith diwifr ar gael yn y llyfrgell, Eduroam, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (ar gyfer dyfeisiau wedi'u hamgryptio yn unig) a'r Cloud (wifi cyhoeddus).



## LLUNGOPÏO

Mae cyfleusterau llungopïo ar gael yn y llyfrgell.
Mae'r llungopïwr wedi'i gysylltu â'ch manylion mewngofnodi Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Os oes gennych gerdyn mynediad i ganolfan ganser Felindre, gellir cofrestru hwn i'w ddefnyddio ar y llungopïwr. Mae cyfrinair gael gan staff y llyfrgell ar gyfer ymwelwyr.
Gellir hefyd sganio ac anfon dogfennau i'ch cyfeiriad ebost GIG drwy'r llungopïwr.

## LAMINEIDDIO A RHWYMO

Mae yna gyfleusterau ar gyfer lamineiddio a rhwymo yn y llyfrgell. Noder, os ydych chi'n gwneud llawer o waith yma, mae croeso i chi ddefnyddio'r peiriannau ond mae disgwyl i chi ddefnyddio eich deunyddiau eich hun.

## BENTHYCIADAU RHWNG LLYFRGELLOEDD

Os nad oes gennym eitemau sydd eu hangen arnoch, e.e. llyfrau, erthyglau cyfnodolion, gallwn ofyn amdanynt o lyfrgell arall i chi. Cysylltwch â'r llyfrgell gyda manylion yr eitemau sydd eu hangen arnoch. Ar gyfer erthyglau cyfnodolion efallai y bydd angen i ni lenwi ffurflen gais at ddibenion hawlfraint.

# e-Adnoddau Felindre

Mae Llyfrgell Felindre yn tanysgrifio i'r adnoddau canlynol ar gyfer holl staff Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

- TNM Online
- Emergency Triage
- NEWT Guidelines (AR Y SAFLE YN UNIG Enw defnyddiwr a Chyfrinair ar gael o'r llyfrgell)

Mae dolenni ar gael drwy wefan y Llyfrgell: https://felindre.gig.cymru/llyfrgell-a-gwasanaeth-gwybodaeth-felindre/
Mae adnoddau ar gael oddi ar y safle hefyd. Bydd angen enw defnyddiwr a chyfrinair Athen GIG Cymru arnoch i'w defnyddio.

Mae Llyfrgell Felindre hefyd yn tanysgrifio i'r Teclyn Pwynt Gofal:
UpToDate.
Ceir mynediad i'r safle drwy gyfeiriad IP.
Ceir mynediad oddi ar y safle drwy nodwedd o'r enw "UpToDate Anywhere". Yn syml, cofrestrwch ar gyfer cyfrif personol UpToDate wrth ddefnyddio cyfrifiadur rhwydwaith IP ac yna byddwch yn gallu mewngofnodi o unrhyw le - gan gynnwys drwy Ap ar ddyfais symudol (mae angen mynediad i'r Rhyngrwyd o hyd).

## ADNODDAU YCHWANEGOL


### KnowledgeShare

Mae KnowledgeShare yn wasanaeth newydd sy'n helpu staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf trwy gynnig diweddariadau rheolaidd o dystiolaeth yn eu maes. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ofyn am chwiliadau llenyddiaeth manylach ac mae'n helpu staff i gysylltu â'r llyfrgell ac unigolion eraill sydd â diddordebau cyffredin. I gofrestru, llenwch y ffurflen sydd ar gael ar hafan y llyfrgell tudalen: https://felindre.gig.cymru/llyfrgell-a-gwasanaeth-gwybodaeth-felindre/cadwn-ddiweddar/

### Realiti Rhithwir a Lles "Comfy Corner"

**Noder nad yw'r adnodd Realiti Rhithwir ar gael ar hyn o bryd**

Mae gennym ddwy weithfan realiti rhithwir yn y llyfrgell sydd wedi'u lleoli yn y "Comfy Corner". Mae gan y peiriannau hyn fideos addysgol a grëwyd gan Ofal Lliniarol a radiotherapi. Gall staff drefnu slot amser i ddod i'w gwylio. Hefyd, mae nifer o raglenni lles ar gael ar yr adnodd Realiti Rhithwir a gall staff drefnu i ddod i'w defnyddio. Ardal les yw "Comfy Corner" er mwyn i staff ei defnyddio ac mae llyfrau lliwio yno hefyd, a detholiad o lyfrau ar ymwybyddiaeth ofalgar, straen a phynciau eraill sy'n gysylltiedig â lles meddyliol. Hefyd, mae gennym ddetholiad amrywiol o nofelau neu gallwch ddod i syllu ar ein llun o'r môr!



# e-Gyfnodolion

Mae Llyfrgell Felindre yn tanysgrifio i nifer o gyfnodolion electronig arbenigol. Mae'r rhain ar gael drwy wefan Llyfrgell Felindre:
https://felindre.gig.cymru/llyfrgell-a-gwasanaeth-gwybodaeth-felindre/
Dilynwch y ddolen i Adnoddau Llyfrgell neu cysylltwch yn uniongyrchol â chatalog y llyfrgell yn:
https://nhswaleslibrarysearch.cardiff.ac.uk
Yn ogystal, mae llawer o deitlau perthnasol eraill a chyfnodolion iechyd eraill a ddarperir yn genedlaethol drwy e-Lyfrgell GIG Cymru. Ni ddylai unrhyw un o'r teitlau hyn ofyn am enw defnyddiwr na chyfrinair gan beiriant GIG. Gellir cael mynediad oddi ar y safle drwy ddefnyddio manylion eich Athens GIG Cymru.
Dyma rai enghreifftiau o deitlau allweddol:

- BMJ
- BMJ Supportive & Palliative Care
- Blood Reviews
- Cancer
- Clinical Oncology
- European Journal of Cancer
- European Urology Oncology
- International Journal of Radiation Oncology Biology and Physics
- JAMA Oncology
- Journal of Clinical Oncology
- Lancet
- Lancet Oncology
- Medical Physics
- Nature Reviews Clinical Oncology
- Nature Reviews Cancer
- NEJM
- Radiotherapy and Oncology
- Practical Radiation Oncology
- Transfusion
- Transfusion Medicine
- Vox Sanguinis

## Adnoddau arweinyddiaeth

Mae gan y llyfrgell gasgliad o 52 o e-lyfrau arweinyddiaeth y gellir cael mynediad atynt drwy Librarysearch.
https://nhswaleslibrarysearch.cardiff.ac.uk


Dyma enghreifftiau o deitlau:

*The Wiley-Blackwell Handbook of the Psychology of Leadership, Change, and Organizational Development* / H. Skipton Leonard, Rachel Lewis, Arthur M. Freedman, Jonathan Passmore.

*Learning Leadership: The Five Fundamentals of Becoming an Exemplary Leader* / James M. Kouzes, Barry Z. Posner.

*The Leadership Journey : How to Master the Four Critical Areas of Being a Great Leader* / Gary Burnison.

Effective Healthcare Leadership / Melanie Jasper, Mansour Jumaa.



# e-Lyfrgell Iechyd y GIG

https://eli.gig.cymru/

Mae'r e-Lyfrgell Iechyd yn gyfleuster ar-lein ar gyfer holl staff y GIG sy'n gweithio yng Nghymru ac mae’n cynnig mynediad at ystod o adnoddau, gan gynnwys:

- e-gyfnodolion
- e-lyfrau
- Cronfeydd data llyfryddol
- Canllawiau

Mae'r e-Lyfrgell hefyd yn tanysgrifio i adnoddau eraill gan gynnwys::

- BMJ Best Practice
- BMJ Learning
- BMJ Case Reports
- Clinical Key and Clinical Key Nursing
- A llawer o rai eraill!

Gellir dod o hyd i ddolenni i'r adnoddau hyn ar wefan Llyfrgell Felindre neu drwy'r e-Lyfrgell Iechyd. Mae'r adnoddau hyn ar gael i'w defnyddio yn y gwaith neu'r cartref. I gael mynediad atynt o'ch cartref bydd angen enw defnyddiwr a chyfrinair OpenAthens GIG Cymru arnoch.

## Dolenni Defnyddiol

Dolenni Llyfrgell

- Llyfrgell Felindre: https://felindre.gig.cymru/llyfrgell-a-gwasanaeth-gwybodaeth-felindre/
- Library Catalogue: https://nhswaleslibrarysearch.cardiff.ac.uk/
- Gwasanaeth Llyfrgell GIG Cymru: https://www.nhswls.org
- e-Lyfrgell Iechyd: https://eli.gig.cymru/
- Iechyd yng Nghymru: https://www.wales.nhs.uk/cym

Dolenni Canllawiau

- NICE: https://www.nice.org.uk/
- The Cochrane Library: https://www.thecochranelibrary.com
- SIGN: https://www.sign.ac.uk/
- ESMO: https://www.esmo.org/Guidelines-Practice

E-Gyfnodolion am ddim


- PubMed Central Journals: https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/journals/
- Free Medical Journal: https://www.freemedicaljournals.com/
- BioMed Central: https://www.biomedcentral.com/journals
- Directory of Open Access Journals: https://doaj.org/



# OpenAthens GIG Cymru

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfeiriad ebost GIG Cymru a chyfrinair (Nadex) i gael mynediad at adnoddau ar-lein o'r **8fed Gorffennaf 2020**, heb fod angen enw defnyddiwr na chyfrinair OpenAthens. Os nad oes gennych ebost na chyfrinair GIG Cymru, gallwch barhau i fewngofnodi gyda'ch manylion arferol ar gyfer OpenAthens. **Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r llyfrgell.**

## Sut i fewngofnodi




Pan fyddwch yn mewngofnodi i adnodd ar-lein byddwch yn gweld dau opsiwn.
Mae'r opsiwn newydd, cyfeiriad **ebost GIG Cymru**, yn caniatáu i unrhyw un sydd â chyfeiriad ebost GIG Cymru fewngofnodi. Gallwch ddefnyddio'r cyfeiriad ebost a'r cyfrinair (Nadex) rydych yn eu defnyddio i fewngofnodi i ddyfeisiau neu systemau GIG Cymru.
Ar ôl mewngofnodi, byddwch yn gallu cael mynediad at bopeth heb orfod mewngofnodi eto am weddill y sesiwn, hyd yn oed oddi ar y safle, heblaw am rai achosion lle mae adnoddau ar gael ar rwydwaith GIG Cymru yn unig, megis iRefer. Os nad oes gennych gyfeiriad ebost GIG Cymru, bydd yr opsiwn **OpenAthens presennol** yn parhau i weithio.

## Defnyddwyr Presennol - mynediad drwy ebost GIG Cymru

Os oes gennych gyfrif Open Athens GIG Cymru gallwch barhau i'w ddefnyddio i fewngofnodi a defnyddio adnoddau ar-lein drwy'r opsiwn Open Athens. Fel arall gallwch ddefnyddio'ch cyfeiriad ebost GIG Cymru a'ch cyfrinair (Nadex). Fodd bynnag, nodwch y bydd gwneud hynny yn cynhyrchu cyfrif OpenAthens **newydd** ar eich cyfer, a gallai hyn effeithio ar unrhyw gyfrifon personol neu leoliadau sydd ar waith.

## Cyfrifon wedi'u personoli

Mae cyfrifon OpenAthens yn gysylltiedig â chyfrifon wedi'u personoli â BMJ ac Elsevier. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r defnyddwyr hynny sy'n dewis newid i'r dull mynediad newydd ac sydd â chyfrifon wedi'u personoli gydag unrhyw un o'r adnoddau canlynol gan y cyflenwyr hyn (ClinicalKey, Nursing ClinicalKey, BMJ Best Practice a BMJ Learning) gymryd rhai camau byr i ail-gysylltu'r cyfrifon hynny â'r opsiwn newyddi i fewngofnodi. Cysylltwch â'r llyfrgell am fanylion.

## Defnyddwyr Newydd

Dewiswch opsiwn cyfeiriad ebost GIG Cymru a nodwch eich cyfeiriad ebost GIG Cymru a chyfrinair (Nadex) (fel y byddwch yn ei wneud wrth fewngofnodi i Office 365 / rhwydwaith GIG Cymru) i gael mynediad at yr e-adnoddau a ddarperir gan e-Lyfrgell GIG Cymru, neu eich Llyfrgell GIG Cymru leol. I gael gafael ar erthyglau cyfnodolion testun llawn neu e-lyfrau bydd hefyd angen i chi fod yn aelod o Lyfrgell Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Efallai na fydd gan rai defnyddwyr gyfeiriad ebost GIG Cymru ond gallant hunan-gofrestru ar gyfer cyfrif OpenAthens yma:
https://register.openathens.net/wales.nhs.uk/register?lang=cy



# Mynediad y tu Allan i Oriau Gwaith

**Gall staff a myfyrwyr awdurdodedig aros yn y llyfrgell ar ôl i ni gau am 4.30pm.**



Os ydych yn y llyfrgell o hyd am 6.00pm mae'n rhaid i chi ffonio'r switsfwrdd (est 100) a'u hysbysu eich bod ar y safle y tu allan i oriau waith arferol. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r switsfwrdd pan fyddwch yn gadael y safle fel eu bod yn gwybod nad ydych ar y safle bellach.

**Mae'r larymau llyfrgell wedi'u gosod o bell rhwng 6pm ac 8pm. Os nad yw'r switsfwrdd yn ymwybodol eich bod yn y llyfrgell bydd y larymau'n canu yn y switsfwrdd a byddant yn rhagdybio bod rhywun yno heb ganiatâd.**


## Ar ôl 4.30pm neu ar Benwythnosau



- Gall staff a myfyrwyr awdurdodedig aros yn y llyfrgell ar ôl i ni gau am 4.30pm. Rhaid darparu cerdyn adnabod yr ysbyty (cofiwch efallai na fydd rhai staff y prynhawn neu staff newydd y switsfwrdd yn eich adnabod!) Os nad oes gennych Fathodyn Adnabod VCC gall y llyfrgell gyhoeddi llythyr)
- Llofnodwch allwedd y llyfrgell.
- Yna bydd staff y switsfwrdd/porthor yn dad-actifadu larwm y llyfrgell wrth y switsfwrdd.

Mae allwedd y llyfrgell yn rhoi mynediad i DDRWS CEFN (allanfa dân) y llyfrgell, ac nid yw'n caniatáu mynediad cyffredinol i'r adeilad ymchwil.

## Drws y Llyfrgell



Rhowch yr allwedd yn y clo a'i droi i'r chwith nes ei bod yn clicio. Trowch y ddolen uwchben y clo i'r chwith er mwyn agor y drws. Pan fydd y drws ar agor trowch yr allwedd yn ôl i'r dde fel ei bod yn clicio. Cadarnhewch fod dolen y drws yn troelli'n rhydd. Mae hyn yn golygu bod y drws bellach wedi'i gloi ac ar ôl i chi fynd i mewn i'r llyfrgell a chau'r drws ni all unrhyw un arall gael mynediad ar ôl chi heb awdurdod.

**MAE LARWM WEDI'I OSOD AR GYFER GWEDDILL YR ADEILAD YMCHWIL CEWCH FYND I'R TOILEDAU OND NID I WEDDILL YR ADEILAD.**

Os byddwch yn mynd i weddill yr adeilad ar ddamwain ac yn actifadu'r larymau, ffoniwch y switsfwrdd (est. 100). Mae ffôn ar gael i'r dde o brif fynedfa'r cyntedd neu ar ddesg fenthyca'r llyfrgell!

## Gadael yr Adeilad

Ewch allan drwy'r drws tân drwy wthio'r bar. Sicrhewch eich bod wedi cloi'r drws tân - dylai'r ddolen droelli'n rhydd - a bod y drws yn cau'n gadarn y tu ôl i chi.

- Dychwelwch yr allwedd i'r switsfwrdd.
- Arwyddwch allan yn y llyfr.

**RHAID I CHI WELD AELOD STAFF WYNEB YN WYNEB AR Y PWYNT HWN ER MWYN AIL-OSOD LARWM Y LLYFRGELL**

Mae'r mesurau diogelwch hyn ar waith er mwyn amddiffyn yr adeilad ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rhaid i bob aelod o staff fewngofnodi bob tro maen nhw'n defnyddio'r gwasanaeth. Ni ddylech BYTH roi allwedd y llyfrgell i rywun sydd heb lofnodi'r llyfr y tu allan i oriau ac ni ddylai staff BYTH adael cydweithiwr i mewn i'r llyfrgell sydd heb lofnodi'r llyfr.

**BYDD MYNEDIAD Y TU ALLAN I ORIAU GWAITH UNRHYW AELOD O STAFF SY'N CYMRYD MANTAIS O'R SYSTEM HON, BETH BYNNAG YW EI SWYDD, YN DOD I BEN!**

**RHAID LLOFNODI AR GYFER UNRHYW EITEM SY'N CAEL EI GYMRYD YN YSTOD YR YMWELIADAU HYN YN YR UN MODD AG ARFER. OS BYDDWN YN DECHRAU COLLI DEUNYDD O'R LLYFRGELL BYDD MYNEDIAD Y TU ALLAN I ORIAU GWAITH YN DOD I BEN!!**



# Map o'r Lleoliad

## Dilynwch Arwyddion ar gyfer Ymchwil Canser Cymru




## Canolfan Ganser Felindre